# CENNIN SYFI

## 1 HAU DY HADAU

O fis Mawrth ymlaen, gelli di hau'r hadau'n syth i wely llysiau. Gelli di hau'r hadau rhwng y planhigion sy'n tyfu'n barod neu o gwmpas ymylon gwely llysiau. Heua'r hadau 0.5cm o ddyfnder, gan roi pinsiad o hadau ym mhob twll.


## 2 TENEUO

Teneua'r planhigion bach drwy dynnu'r rhai gwannach os bydd y cennin syfi'n dechrau tyfu'n rhy agos at ei gilydd.

## 3 CYNAEAFU

Dylet ti allu dechrau hel y cennin syfi o fis Mehefin ymlaen, pan fyddan nhw tua 15cm o daldra.

Defnyddia siswrn i dorri beth sydd ei angen arnat ti. Cofia adael tua 5cm o'r coesyn er mwyn iddo allu tyfu nôl.




## COFIA

Gadawa rywfaint o'r cennin syfi i flodeuo. Byddan nhw'n denu gwenyn i dy ardd llawn bwyd.

Ar ôl i'r blodau droi'n hadau, a phan fyddan nhw'n edrych yn sych ac fel papur, gelli di hel yr hadau er mwyn eu hau mis Mawrth nesaf. Planhigion lluosflwydd yw cennin syfi, sy'n golygu y byddan nhw'n dod nôl bob blwyddyn.



**Barod i'w hel**



**Cennin syfi yn eu blodau**

CARDIFF CAERDYDD

All Saints Educational Trust

TREES FOR CITIES